# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 08.03.17 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Huw Davies, Ian Williams, Eleri Williams, Avril Garrod, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Karen Shellis.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 08.02.17 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Avril Garrod **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.02.17):**
   a) **Cae Chwarae -** pris wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am y gwaith torri gwair yn y Cae Chwarae am 2017-18 = **£480.00 + VAT**
   **Penderfyniad** ➞ derbyn y pris yma. **Cynnig:** Geraint Edwards **Eilio:** Huw Davies.
   b) **Hysbysfwrdd yn Llwyngwril -** gan fod dim cyfarfod ym Mis Ebrill, cytunwyd for Huw Davies a Geraint Edwards yn cyfarfod i gytuno ar bris wedi i'r clerc gael ateb gan Mark O'Dea a Paul Cruickshank, hefo'i prisiau.

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril -**
   Amserlen agor = 1 Ebrill 2017 tan ddiwedd Hydref 2017
   Cyfraniad Blynyddol gan Gyngor Cymuned Llangelynnin i Gyngor Gwynedd = £2,000.00
   Cytundeb Darpariaeth wedi ei wneud rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llangelynnin ar y 01.04.17
   Cytundeb wedi ei arwyddo a chopi wedi ei ddychwelyd i Gyngor Gwynedd.
   b) **MacMillan (Gogledd Cymru)** - llythyr wedi ei dderbyn yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd = £50.00.
   c) **Ambiwlans Awyr Cymru** - llythyr wedi ei dderbyn yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y rhodd = £250.00.
   d) **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd –** cais am gymorth ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i gefnogi'r cais yma = £25.00. **Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Kevin Goodchild.
   e) **Cyngor ar Bopeth (CAB) –** cais am gymorth ariannol
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytun i gefnogi'r cais yma = £25.00. **Cynnig:** Ian Williams **Eilio:** Kevin Goodchild.
   f) **Ysbyty Tywyn -** gwybodaeth ynglŷn â chyfarfod blynyddol pwyllgor Cronfa Apêl Ysbyty Tywyn wedi ei dderbyn.
   Cynrychiolydd Llwyngwril ar y pwyllgor ydi Mrs Eryl Gilliland.
   g) **Cynnal a Chadw'r Llwybrau, Cof Golofn a Mynwent y Crynwyr –**
   prisiau a chopi o'i yswiriant wedi eu derbyn gan Daniel Jones (£514.00) a Geraint Micah (£390.00 + VAT = £468.00) i wneud y gwaith am y flwyddyn nesaf.
   Dim ateb wedi ei dderbyn gan Kevin Jones (Jones & Jones).
   **Penderfyniad** ➞ Derbyn pris Geraint Micah a chynnig y gwaith iddo.
   ➞ Llythyr i Daniel Jones i ddiolch iddo fo hefyd.

   - ***Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod y prisiau.***

**h) Etholiadau Cynghorau Cymuned -** gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd ynglŷn ag etholiadau = 04.05.17.
Ffurflenni wedi eu dosbarthu i'r aelodau presennol sy'n dymuno bod yn ymgeiswyr yn yr etholiad.
Ffurflenni wedi'w llenwi i'w dychwelyd i Benarlâg, Ddolgellau cyn 4/4/17.
Rhybuddion Etholiad wedi eu harddangos ar hysbysfwrdd Llwyngwril a Rhoslefain, ag ar Wefan y Cyngor Cymuned ar y 17.03.17. Cofrestr Etholwyr (01.12.16) Llwyngwril a Rhoslefain wedi eu derbyn.

6. <u>**Materion Cynllunio**</u>:

- **NP5/69/PIAW352A - Tir ger Gwynfryn, Llwyngwril -** cais am gymeradwyaeth materion a gadwyd yn ôl i godi dau fyngalo ar wahân a dau garej un llawr ar wahân
  ➞ dim sylwadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. <u>**Adroddiad Ariannol**</u>: Derbyniwyd Adroddiad Mis Chwefror 2017 yn gywir.

**Cynnig –** Kevin Goodchild **Eilio –** Ian Williams **Arwyddwyd –** Geraint Edwards**.**

a) **Greenbarnes Ltd -** derbynneb am y "self-healing pinboard" wedi ei dderbyn = £186.32.
b) **Rhodd Daliadau 2017-18 -** Pawb yn gytûn fod £2,000.00 yn unig i gael ei glustnodi ar gyfer rhodd daliadau am y flwyddyn nesaf eto, a bod cyfraniad ariannol yn cael eu gwneud yn flynyddol i'r Ganolfan, Fynwent ac Ambiwlans Awyr Cymru, <u>ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sef Mis Chwefror.</u>

- Ganolfan …………… £1,000.00 – yn flynyddol
- Mynwentau ……….. £ 500.00 - yn flynyddol
- Ambiwlans Awyr .. £ 250.00 – yn flynyddol
- Ceisiadau eraill ….. £ 250.00 - i'w rannu rhwng y ceisiadau eraill am gyfraniadau ariannol yn 2017/18.

8. <u>**Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr**</u>: Dim

9. <u>**Adroddiad y Cynghorydd Sirol**</u>:

Adroddodd Louise Hughes ei bod wedi mynychu Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren ar y 03.03.17 pan gafodd y ddau broblem oedd y Cyngor Cymuned wedi cyflwyno i'r pwyllgor eu trafod ….

- **Dim golau ym maes parcio'r orsaf trên** - Cynrychiolydd Network Rail yn cadarnhau fod dim arian ar gael ar hyn o bryd i hyn ond gall fod potensial ar gyfer effaith cysylltiadau cymunedol ac os oes cyllid ar gael y bydd hyn yn cael ystyried. 'Roedd y cynrychiolydd yn barod i drafod ymhellach gyda'i gydweithwyr.
- **Rhwystrau Diogelwch rhwng Llwyngwril a Friog (A493) -** maent yn mynd i edrych am ateb tymor byr yma yn gyntaf, gyda'r bwriad o gyflwyno adolygiad diogelwch mwy parhaol. Network Rail yn edrych i gael y mater hwn wedi ei ddatrys ac yn ymddiheirio am yr oedi.
  Cyfarfod safle wedi ei drefnu gyda chynrychiolwyr o Network Rail a Chyngor Gwynedd am 2pm 29.03.17.

10. <u>**Unrhyw Fater Arall**</u>:

a) **Gordyfiant yn Llwyngwril -** cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â gwrych ar ochr y ffordd angen eu torri
b) **Rhoslefain -** cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â dŵr yn difrodi ochr isa'r ffordd ger Ffordd Llabwst/Parlla
**Penderfyniad** ➞ llythyr i Gyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o'r problemau yma.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf (AGM) :- Nos Fercher - 10.05.17 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

<u>**Arwyddwyd**</u>
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**